**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe, a thrwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Iau, Hydref 24ain, 2024 am 7.50 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Mrs A. J. Evans | D. Thomas | L. Wilkins |
| | J.W. Tandy | D. Hopkins | H. Davies |

**Yn mynychu arlein:** Neb

**Ymddiheuriadau:** G. J. Davies, C. R. Thomas, P. H. Roberts, A. Thomas

**531.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Roedd y Cynghorwyr G. J. Davies, Mrs C. Thomas, P. H. Roberts ac A. Thomas wedi hysbysu'r Clerc nad oeddent ar gael i fynychu'r cyfarfod.

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**532.**

**Diweddariad y Clerc ynghylch Prosiect Banc Y Draenen.**

Roedd y Clerc wedi cynnig y diweddariad canlynol:

- Erbyn hyn mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno gosod clawdd ar hyd y parc, ynghyd â dwy fainc plannu, heb unrhyw gost i'n cyllideb ni.

- Mae'r prosiect Bocsys Adar ac Ysgolion ar y gweill, a bydd yn cael ei gyflawni yn ystod y mis nesaf.

- Mae'r ddwy Goeden Afal a oedd wedi methu cydio yn cael eu hamnewid heb gost.

- Nid yw'r Clerc hyd yn hyn wedi ystyried yr'Arwydd Gweledigaeth' ar gyfer y parc i hysbysu preswylwyr, ond yn bwriadu taclo hynny yn ystod y misoedd nesaf, ac roedd hefyd yn archwilio cost tybiau plannu ar gyfer llysiau a blodau ar yr ardal wyneb galed.

Cadeirydd

- Roedd hefyd yn gweithio gyda'r cyngor i reoli ardaloedd dolydd a phrysgwydd gan gyflwyno cynlluniau torri a phlannu sensitif.

**533.**

**Prosiect Gardd Gymunedol Cwmgwili a'r Prosiect Neuadd Gymunedol ehangach.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi bod yn ymwneud â phlannu bylbiau yng Ngardd Cymunedol Cwmgwili; roedd hyn wedi arwain at gyflwyno swyddogion Cadwraeth Coed Sir Gaerfyrddin at selogion yr ardd, ac roedd cynllun plannu a thirlunio ar y safle yn cael ei ystyried, ynghyd â ar safle'r neuadd bentref gyfagos sydd drws nesaf i faes chwarae'r plant.

Roedd hefyd wedi cyflwyno gwenynwr lleol a fydd yn ymgysylltu er mwyn trafod safleoedd posibl gosod Cychod Gwenyn.

**534.**

**Gwenynwyr lleol yn Cynnig Cychod Gwenyn.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi siarad gyda Gwenynwyr lleol a oedd yn meddu ar Gychod Gwenyn y byddai modd eu gosod ar dir y cyngor. Roedd y Clerc wedi gofyn bod yr aelodau yn ei ebostio os roeddent yn credu bod ganddynt safleoedd addas yn eu wardiau, safleoedd a oedd yn ddiarffordd a heb fod yn rhy agos i ardaloedd tai poblog.

**535.**

**Trafodaeth ynghylch Datrysiad Gwresogi Gwyrdd ar gyfer Pafiliwn Llandybïe.**

Nododd y Clerc bod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid yn gynharach yn y noson wedi pasio gosod system wresogi Pafiliwn Llandybïe fel eitem cyllideb ar gyfer y flwyddyn 2025/26. Bydd hwn yn cynnwys costu system wresogi newydd gan ddefnyddio Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer; roedd y pwyllgor wedi croesawu hyn gan ei fod yn cydfynd â'n polisïau gwyrdd.

**536.**

**Trafod y Ddogfen Argyfwng Natur.**

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn y ddogfen 'Cyflwr Natur' drwy law Cyngor Sir Caerfyrddin ac wedi, yng ngwmni'r Is-Gadeirydd, ei adolygu. Cynigiodd ychydig bwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'n polisïau cyfredol ni.

Nododd y Cyng A. J. Evans ei fod yn arbennig o ddiddorol bod arolygon ecolegol yn cael eu hannog.

Cadeirydd

Penderfynwyd bod yr Is-Gadeirydd a'r Clerc yn adolygu'r rhain ac yn cynghori cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Amgylchedd ynghylch unrhyw brosiectau neu ychwanegiadau at ein polisi y byddai hyn yn gallu cael effaith arnynt.

**537.**

**Diweddariad ynghylch Chwarel Cilyrychen.**

Cyflwynodd y Clerc ddiweddariad i'r pwyllgor ynghylch y Pwyllgor Cynllunio a ataliwyd i drafod y Safle Ailgylchu Gwastraff Anadweithiol sy'n destun cais at Awdurdod Cynllunio Sir Gaerfyrddin. Eglurodd er bod yr ymweliad safle wedi digwydd, roedd rhaid atal y cyfarfod dilynol a threfnu dyddiad amgen oherwydd problem technegol, sef diffyg cworwm yn y cyfarfod. Roedd hefyd wedi cynghori bod y Pwyllgor Cynllunio eisoes wedi cyflwyno sylwadau, ac nad oedd modd gwneud sylwadau pellach.

**538.**

**Diweddariad ynghylch y Cais Cloddio Glo Brig yng Nglan Lash.**

Cafodd y pwyllgor ddiweddariad gan y Clerc ynghylch y cais drwy ddweud bod y cais blaenorol i ymestyn y Gwaith Cloddio Brig am gyfnod cyfyngedig wedi'i wrthod y llynedd.

Bydd y cais a fydd gerbron ein Pwyllgor Cynllunio ar Hydref 30th yn gais newydd, lle ma'r ymgeisydd wedi cyflwyno cais Echdynnu Mwynau 100% i'w gwerthu i'r Marchnadoedd Hidlo Dŵr a Thechnoleg. Gofynnodd y Clerc am sylwadau y gellid eu darllen yn y Pwyllgor Cynllunio.

Roedd Cadeirydd y Cyngor, y Cyng David Hopkins, yn gryf o'r farn bod achos da i gefnogi'r cais hwn o ran swyddi yn yr economi leol, ac i negyddu mewnforio glo o wledydd eraill megis Periw a Brasil, sy'n cynyddu'r effaith ôl-troed carbon. Roedd hefyd o'r farn gan nad oedd hyn yn gyflenwad tanwydd ffosil i'w losgi, y dylid ei dderbyn, a bod ymestyn y gwaith am gyfnod cyfyngedig yn dderbyniol.

Roedd y Cyng Lynne Wilkins yn cydymdeimlo â'r defnydd o ddeunydd ar gyfer hidlo dŵr a thechnoleg, ond ddim yn gallu penderfynu os oedd hyn yn gorbwyso'r niwed i ecoleg.

Roedd Cadeirydd y Cyfarfod, y Cyn J. Tandy, o'r farn bod ein polisi yn ei le, ac yn nodi ein bod am osgoi annog gwaith cloddio glo brig, ac roedd yn teimlo bod ecoleg o'r pwys mwyaf. Roedd y Cyng Huw Davies a'r Cyng A. J. Evans yn cytuno â hyn, a gwaneth y Cyng Huw Davies gais bod pob safbwynt yn cael ei ddarllen yn ystod y pwyllgor cynllunio nesaf, fel bod modd gwneud sylwadau yn dilyn dadl gytbwys. Roedd hefyd yn teimlo bod swyddi wir yn bwysig.

Cytunwyd bod y Clerc yn nodi, ac yn trosglwyddo'r sylwadau a gynigiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynnlunio ar Hydref 30ain, 2024.

Cadeirydd

**539.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.30 yh.

Cadeirydd